Gofalwch am eich iechyd
Gogledd Cymru

# Adnodd Cynhwysiant ar Gofrestr Anabledd Dysgu

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

- Mae hwn yn rhestr gyfeirio i feddygon teulu i'w cynorthwyo i adnabod unigolyn sydd ag anabledd dysgu.
- Nid yw hwn yn adnodd diagnostig felly dylid defnyddio barn glinigol gadarn bob amser.
- Nod yr adnodd hwn yw i adnabod pobl a fyddai'n elwa o fod ar gofrestr Anabledd Dysgu y practis meddyg teulu
- Nid yw cael eu cynnwys ar y gofrestr yn golygu y bydd yr unigolyn hwnnw yn gymwys yn awtomatig ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol – mae'r penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar anghenion.

**Diffiniad o anabledd dysgu**: Gallu llawer is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, i ddysgu sgiliau newydd (deallusrwydd â nam sylweddol)
**A** llai o allu i ddygymod yn annibynnol, (nam ar weithredu yn gymdeithasol/y gallu i addasu)
**AC** a ddechreuodd cyn bod yn oedolyn (cychwyn cyn bod yn 18 oed) gydag effaith barhaol ar ddatblygiad

*Ystyriwch y canlynol o ran rhesymau pan na all unigolyn gyflawni'r pethau hyn pan gynhelir yr asesiad: - nam ar y synhwyrau (nam clyw neu olwg), nid Saesneg yw eu hiaith gyntaf

| **Cwestiynau i'w hystyried** | Ydw ✔ | Nac Ydw ✖ |
|---|---|---|
| A fu i'r unigolyn fynychu unrhyw ysgolion arbennig neu a gawsant ddatganiad yn yr ysgol brif ffrwd? A oes ganddynt gynllun gofal iechyd addysgol | | |
| A oes diagnosis o anabledd dysgu/anfantais meddwl mewn unrhyw nodiadau? IQ o dan 70 (cyfeiriwch at y rhestr cod darllen o ddiagnosis pendant a phosib o anabledd dysgu) | | |
| A yw'r unigolyn yn adnabyddus i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu? | | |
| A yw'r unigolyn o dan ofal seiciatrydd ymgynghorol ar gyfer anableddau dysgu? | | |
| A oes unrhyw un erioed wedi dweud wrth yr unigolyn fod ganddynt anabledd dysgu? A fu iddynt gyflawni cymwysterau yn yr ysgol? (gallai graddau TGAU isel fod yn arwydd o AD ond TGAU, Lefelau A graddau uchel neu addysg prifysgol yna nid yw AD yn debygol | | |
| Sut mae'r unigolyn yn dygymod mewn cymdeithas? A ydynt angen cefnogaeth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd? Dywedwch wrthyf beth rydych yn ei wneud yn ystod y dydd. A yw hyn yn dangos eu bod angen cefnogaeth i wneud gweithgareddau dyddiol? | | |
| A ydynt angen cymorth i ddarllen h.y. llythyrau apwyntiad neu lythyrau swyddogol eraill? | | |
| A oes ganddynt broblemau gyda chyfrifiadau rhifyddol syml? (h.y. "Os wyf yn rhoi £5 i ti brynu llefrith. Mae'r llefrith yn costio £1.50 – faint o newid fydd gen ti ar ôl?) | | |
| A ydynt angen cymorth gyda chludiant? (methu symud o gwmpas yn annibynnol?) | | |

| A ydynt yn cael anhawster gyda: | | |
|---|---|---|
| Anghenion cyfathrebu | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Ysgrifennu | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Hunan-ofal | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Byw'n annibynnol | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Dehongli negeseuon cymdeithasol | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Rheoli eu hymddygiad | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Cydlynu symudiad | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Dysgu sgiliau newydd | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Deall gwybodaeth newydd neu gymhleth | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| A oedd ganddynt nam ar y synhwyrau? | **Ydw** | **Nac Ydw** |
| Ai Saesneg yw eu iaith gyntaf? | **Ydw** | **Nac Ydw** |

**Gallai sawl ateb 'do/oes/ydy' ddangos fod ganddynt Anabledd Dysgu***

## Ffactorau a ALLAI ddangos nad oes anabledd dysgu

- Datblygiad arferol nes bod ffactorau eraill yn effeithio (cyn 18).
- Diagnosis o ADHD, dyslecsia, dyspracsia neu Aspergers
- Wedi mynychu cyfleuster addysg prif ffrwd yn llwyddiannus heb gefnogaeth.
- Wedi ennill cymwysterau (TGAU a/neu Lefel)
- Gallu gweithredu yn gymdeithasol heb gefnogaeth
- Yn rheoli eu dyletswyddau ariannol yn annibynnol
- Gallu gyrru car.
- Cyswllt gyda gwasanaethau iechyd meddwl
- IQ wedi ei gofnodi yn uwch na 70
- Anawsterau Cyfathrebu oherwydd Saesneg fel ail iaith

## Ffactorau a ALLAI ddangos anabledd dysgu

- Cofnod o oedi gyda datblygiad/anawsterau gyda gweithredu cymdeithasol a byw o ddydd i ddydd cyn 18 oed.
- Angen cymorth sylweddol i wneud gweithgareddau bywyd o ddydd i ddydd (bwyta ac yfed, hylendid personol, gwisgo dillad priodol) a/neu gydag ymaddasu cymdeithasol/cymunedol (e.e. datrys problemau/rhesymu cymdeithasol).
- D.S. efallai bydd yr angen am gymorth yn llai amlwg.
  Y tri maen prawf ar gyfer AD yn bresennol h.y.
- Nam ar allu deallusol/gallu i addasu yn gymdeithasol ac oedran dechrau.
- Ystod o wybodaeth yn cyflwyno darlun o anawsterau mewn nifer o feysydd gweithredu, heb eu hegluro gan 'label' arall
- Cyswllt gydag ymgynghorydd Anableddau Dysgu arbenigol
- Mynychu cyfleuster addysg arbenigol i bobl sydd ag oedi deallusol

| Os ydych yn creu y dylai'r claf gael ei gynnwys ar y gofrestr anableddau dysgu yna defnyddiwch y cod ar gyfer "ar y gofrestr anableddau dysgu" fel isod: | | |
|---|---|---|
| EMIS/fersiwn 2 – 918e | System 1/fersiwn 3 – XaKYb | SNOMED – 416075005 |